Rhifyn 18

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Gwirfoddoli
Volunteering

Newyddlen Gwirfoddoli

Haf 2023

Torri Record!

Mae'n bleser cael cyhoeddi ein bod wedi torri record yn ystod Ebrill - Mehefin o safbwynt y nifer o wirfoddolwyr o fewn adeilad y Llyfrgell, gyda 64 o wirfoddolwyr yn dod i mewn yn wythnosol.

Bydd y cynllun gwirfoddoli ar agor trwy gydol yr haf; er hynny, bydd llai o brysurdeb, gyda'r myfyrwyr wedi ymadael ac eraill ar ddyletswydd gofal plant/wyrion.

Heddwch ar draws y môr:

Trwy'r 1920au, o ganlyniad i'r Rhyfel Mawr, arweiniodd Pwyllgor Merched Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru ymgyrchoedd ar heddwch. Ym 1923, trefnodd menywod ledled Cymru ymgyrch Heddwch Merched ac aeth ymgyrchwyr o ddrws i ddrws i bron bob cartref yn y wlad. Y canlyniad oedd Deiseb Goffa a lofnodwyd gan 390,296 o fenywod (7 milltir o hyd yn ôl y sôn) a gafodd ei chludo a'i chyflwyno i fenywod America.

Can mlynedd yn ddiweddarach, mae'r gist dderw a'i chynnwys wedi dychwelyd i Gymru. Mae'r Ddeiseb yn cael ei chatalogio a'i digido ar hyn o bryd gan staff y Llyfrgell; bydd y fersiwn ddigidol ar gael i wirfoddolwyr ei thrawsgrifio ar-lein ar wefan torfoli'r Llyfrgell o fis Tachwedd ymlaen.

Cyn bo hir byddwn yn gwahodd rhai o'n gwirfoddolwyr mewnol i helpu gyda thasg ragarweiniol i nodi lleoliad (tref/pentref) rhai o'r enwau yn y ddeiseb lle mai dim ond enw stryd sydd wedi'i gofnodi. Bydd y dasg yn cynnwys chwilio'r Cyfrifiad i gyfateb enwau a chyfeiriadau.

Peilot Lleoliadau i Fyfyrwyr:

Gyda nifer uchel o fyfyrwyr ôl-raddedig o Adran Astudiaethau Gwybodaeth y Brifysgol wedi cofrestu i wirfoddoli yn ystod y flwyddyn, datblygwyd cynllun peilot yn cynnig lleoliadau gwirfoddoli o fewn rhai o adrannau'r Llyfrgell. Mae'r adborth gan yr wyth myfyriwr a'r aelodau staff wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae tri o'r myfyrwyr wedi sicrhau cyflogaeth ers hynny. Nododd un ohonynt fod ei leoliad gyda churadur ffotograffau LlGC wedi ei helpu i sicrhau cyflogaeth mewn amgueddfa yn San Diego, U.D.A.

Os hoffai unrhyw un o staff LlGC gynnig lleoliad 12 wythnos i fyfyriwr ôl-raddedig rhwng Hydref 2023 a Gorffennaf 2024, cysylltwch â ni.

Cofnodi'r Diwydiant Llaeth yn y Canolbarth:

Mae Colin wedi bod yn sganio ac yn creu data ar gyfer gwefan Casgliad y Werin Cymru i gofnodi hanes hufenfeydd y Bwrdd Marchnata Llaeth yng Nghanolbarth Cymru. Mae casgliad personol Michael Morgan o luniau, dogfennau ac effemera yn cofnodi ei amser yn gweithio yn Hufenfa Felin Fach o 1965 - 1988, ac yn ddiweddarach yn Hufenfa Llangadog o 1988 - 2005.

Mae peth o'r casgliad eisoes wedi'i lwytho i wefan CyW, gyda mwy i ddilyn yn fuan - https://www.casgliadywerin.cymru/discover/query/Bwrdd%20Marchnata%20Llaeth

Ystadegau Ebrill-Mehefin

64 o wirfoddolwyr

1,906 o oriau gwirfoddoli

14 o brosiectau/ dasgau ar waith

Croeso

Croeso cynnes i'r canlynol sydd wedi ymuno â'r cynllun gwirfoddoli yn ddiweddar:

Llinos, Natasha, Sue, Cath, Mike, Harriet, Lynne, Emrys, William, Dafydd.

Dewch i gwrdd â gwirfoddolwr:



Sue

Pam y daethoch yn wirfoddolwr ac ers pryd rydych chi wedi bod yn gwirfoddoli i'r Llyfrgell?

Mae gwirfoddoli yn werth chweil ac yn addysgiadol. Cefais fy annog i wneud yn fy arddegau ac rwyf wedi parhau ers hynny, gan ddechrau yma yn y Llyfrgell yn Ebrill. Mae'n gweddu'n dda â dysgu rhan-amser a bywyd teuluol.

Pa fath o dasg gwirfoddoli rydych yn ei chyflawni?

Dwi'n gweithio ar brosiect diddorol sy'n casglu enwau a manylion aelodau'r Orsedd o 1880 hyd heddiw er mwyn creu cronfa ddata.

Beth, yn eich barn chi, yw manteision gwirfoddoli yn LlGC?

Mae'n agor eich meddwl i fod yn rhan o rywbeth mwy, yn rhan o hanes a diwylliant Cymru. Dw i wedi cyfarfod llawer o bobl hyfryd ac yn cael ymarfer (a gwella gobeithio) siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg.

Hoff le a pham?

Pen Dinas, ar ben Constitution Hill, Parc Natur Penglais.... y golygfeydd gwych!

Beth ydych chi'n mwynhau ei wneud yn eich amser hamdden? (Hobïau / diddordebau)

Cerdded bryniau (gweler uchod). Comedi. Gwrando ar gerddoriaeth (yn enwedig Bwncath yn ddiweddar). Ffliwt, canu a dawnsio (ond ddim i gyd ar yr un pryd!)

Ydych chi'n aelod o unrhyw glybiau/cymdeithasau?

Côr ABC a Chlwb Iwcadwli (band ukelele gorau Aber).

Hoff raglen deledu/ffilm a pham?

Y gyfres 'Dal y Mellt'. Yn llawn tensiwn a chyffro ond hefyd yn ddoniol a gyda calon.

Eich hoff gyfnod mewn hanes?

Y 2020au yn ein cornel ni o'r byd am y rhyddid mynegiant ac amrywiaeth yr ydym i gyd yn dechrau ei fwynhau. Ond y 70au am y ffasiwn.

Enwch 3 peth byddech yn mynd gyda chi i ynys bellennig?

Teulu, fflasg o de, a bwrdd caws.

Ffaith ddiddorol amdanoch.....

Mae gen i'r ddawn rhyfedd, AN-nefnyddiol o allu gwneud y 'moonwalk'

Dewch i gwrdd â staff LlGC:



Dan Johnson

Pa ysgol / brifysgol fynychaist ti?
Ysgol Bro Ddyfi a wedyn Prifysgol Bangor, lle graddiais gyda gradd yn Astudiaethau'r Cyfryngau.

Atgof gorau o ddyddiau Ysgol?
Cynrychioli'r Ysgol yng nghwis S4C, Pencampau. Ddaru ni golli'n y rownd gyntaf, ond hefo'r sgor colli uchaf erioed – robbed!

Beth yw eich rôl yn y Llyfrgell?
Fi sy'n gyfrifol am raglen Digwyddiadau'r Llyfrgell.

Eich Diddordebau?
Dw i'n gefnogwr brwd o Birmingham City, ac yn dilyn Cymru yng ngêmau cartref ac oddi cartref. Tu allan i bêl-droed, dw i'n mwynhau criced, darllen a phodlediadau.

Hoff rhaglen deledu / ffilm?
Hoff raglen deledu erioed ydy 'The Wire', gyda Idris Elba a Dominic West. Hoff ffilm – The Godfather. Clasur!

Hoff fwyd?
Fillet steak (canolog), sglodion a llwyth o sôs pep-percorn. .. a bara ar yr ochr i mopio'r sôs fyny.

Eich hoff gyfnod mewn hanes?
Hen Rufain – pobl, hanes a dinas eiconig.

Enwch 3 pheth yr ewch gyda chi i ynys bellenig?
Copi random dw i heb di darllen o Wisden Cricketers Almanack, digon o ddŵr allai yfed, a chwch.

3 person enwog (byw neu farw) fyddech yn eu gwahodd draw am bryd o fwyd?
Muhammad Ali, David Bowie a Steve Coogan.

Ffaith diddorol amdanoch?
Wnes i gwbwlhau ras 10k cwpwl o fisoedd yn ôl - llai na 6 mis ar ôl cychwyn rhedeg.

Clwb Sgwrsio

Os ydych yn dysgu Cymraeg dewch i ymarfer yr iaith mewn amgylchedd anffurfiol a chyfeillgar yn ein Clwb Sgwrsio i wirfoddolwyr.

Dros baned pob dydd Llun 11:00 - 11:45.

Cysylltwch â Gwyneth os hoffech ymuno â ni.

Os hoffech ymuno â'n cynllun gwirfoddoli, cysylltwch â ni :

Gwyneth Davies **01970 632991**
Cledan Davies **01970 632437**

E-bost: **gwirfoddoli@llgc.org.uk**
@GwirfoddoliLLGC